

RHIFYN Y
MIS DU

WILIA

RHIF 420 TACHWEDD 2019 PAPUR MISOL CYMRAEG
PRIS 50C 0.6 EWRO ABERTAWE

Y TU MEWN:

Oedfa olaf capel
Bethania t.2
Newyddion y Fenter
t.2
Dr Donald Williams
gyda'r Cylch Cinio.
t.3
Apêl Cymorth
Cristnogol t.3
Stori Llan-Elen t.4
Cymdeithas
Gymraeg Treforys
t.5
Darlith Arbennig t.7
Dafydd Williams yn
cael 'Gong' t.7
Ffair Nadolig y
Fenter t.8
Aduniad Arbennig
Cym. Ceredigion t.7
Cyfundeb
Annibynwyr
Gorll.Morgannwg
t.6
Llyfrau'r Nadolig t.6
Bryn Tawe t.5 a t.8

Digwyddiadau ar y gweill yn Nhŷ

Tawe:
8fed o Dachwedd:
Sesiwn Werin – dewch i
ganu, i yfed ac i fwynhau

15fed o Dachwedd:
Noswaith yng nghwmni'r
Welsh Whisperer – “Ni'n
beilio nawr”!

22ain o Dachwedd: Ffair
Nadolig Tŷ Tawe, gyda
pherfformiad gan Côr Tŷ
Tawe. Rhai llefydd i
stondinau ar gael.

29ain o Dachwedd: Neil
Rosser – **yn canu'n**
acwstig.

Merched y Wawr Abertawe yn dathlu'r hanner cant



Mae'n anodd credu bod bron
deng mlynedd wedi hedfan
heibio ers dathlodd Merched y
Wawr Abertawe eu pen-blwydd
yn ddeugain, yn ôl yn 2010.

Roedd hi'n ddathliad pwysig ac

fe benderfynon ni
blannu coeden dderw
ym Marc
Singleton...rhywbeth i
ni ac i'r amgylchedd
fel ei gilydd. Roedd
safe'r goeden
gyferbyn â'r gerddi
botaneg ac fe
drefnodd y garddwyr
blac arbennig o dan y
goeden gyda geiriau ein
cân.....'Ein hiaith a'n gwlad,
fe'u caraf fwy a mwy, fe bery
popeth hardd tra paront hwy.'
Fel mae'r goeden wedi para,
mae Merched y Wawr hefyd
wedi para ac yn awr yn paratoi i
ddathlu eu hanner cant y
flwyddyn nesaf. Ac ar y trydydd
o Hydref, ar ôl glaw trwm y
bore, daeth yr haul ma's ar
gyfer grŵp brwdfrydig a'u
tryweli. Mae'r dderwen wedi

tyfu cymaint yn ystod y deng mlynedd
diwethaf ac yn edrych yn iachus tu
hwnt!

Ond sut dylen ni ddathlu'r tro hyn?

Gydag aur wrth gwrs! Fe

benderfynodd y merched blannu

pum deg
bwlb
cennin
Pedr o
dan y
goeden.
Roedd y
gwaith yn
galed
ond fe
gawson

ni lawer o hwyl wrth y gwaith.
Ar ôl y cyffro, gadawodd pawb
am Dŷ Tawe i barhau â'r
dathliad gyda theisen siocled
flasus a gwydraid llawn
Prosecco. Achlysur arbennig,
cwmni da, llawer o sgwrsio ac
atgofion melyn.

Yn awr rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen
at ymweld â'r goeden yng ngwanwyn
2020 i weld hanner cant o flodau melyn
yn disgleirio yn yr heulwen.
Mwynhewch eich blwyddyn, Ferched,

ac os ydych chi eisiau ymuno
â ni, cysylltwch â Grace neu
Jaci am ragor o fanylion, drwy
ffonio 01792 406051.



Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe am

Ingrid, gan Rhiannon Ifans (enillydd Gwobr y Fedal Ryddiaith, Eisteddfod Genedlaethol Conwy eleni)
Marciau – yn amrywio o 6 i 9. ‘Nofel o ddwy hanner’ i nifer nad oedd wedi mwynhau'r rhan gyntaf (rhan Ingrid ei hun) gymaint â'r gweddill.

“Wedi mwynhau, wedi cael fy swyno.

Cefais bleser mawr o'r darllen. Mae'r iaith yn hyfryd.”

“Wedi gwirioneddol fwynhau darnau'r mab a'r gŵr, ond ddim yn siŵr am y ferch-yn-g-nghyfraith a rhan Ingrid.”

“Dim llawer o gydymdeimlad ag Ingrid, ond yn cydymdeimlo â'r gŵr a'r mab.”

“Heb dwymo at Ingrid o gwbl fel cymeriad, ond wedi setlo erbyn yr ail hanner.”

“Cymeriad Gerhard yn atyniadol iawn.”

“Wedi gorfod mynd yn ôl i ailddarllen y dechrau.”

“Wedi darllen yr hanner cyntaf dair gwaith. Roedd rhywbeth anarferol am Ingrid.”

“Rwy'n hoffi'r ffordd roedd yr awdur yn hau ansicrwydd ym meddwl y darlennydd.”

“Oedd y darlennydd i fod i ddrysau ar y dechrau, fel Ingrid ei hun?”

“Roedd newid safbwynt yn digwydd (o'r person 1af i'r 3ydd) mewn ambell fan ond efallai fod hynny'n fwrriadol.”

“Wedi hoffi'r ffaith ein bod ni'n gweld yr un olygfa o wahanol safbwyntiau.”

“Wrth gael safbwynt gwahanol gymeriadau ar yr un digwyddiadau, efallai nad oedd llawer o symud ymlaen yn digwydd yn y nofel, ond roedd y darlun cyffredinol yn dod yn fwy eglur hefyd.”

“Yn falch o offren y llyfr a dweud y gwir.”

“Portread da o ddechreuadau dementia.”

“Mwynheais naws Ewropeaidd y nofel.”

“Efallai fod y nofel wedi'i gosod mewn gwlad dramor er mwyn inni allu mwynhau'r manylion gwahanol.”

“Mae'n dangos ymwneud pobl â'i gilydd yn grefftus iawn.”

“Mae yma ymdeimlad nad yw pobl wir yn gallu nabod ei gilydd – diffyg adnabyddiaeth er bod pobl yn byw gyda'i gilydd am flynyddoedd.”

Cyfarfod nesaf: **Tŷ Tawe**, nos Lun 11 Tachwedd 7:30

Carafanio, Guto Dafydd, Y Lolfa £8.99

Cyrol fuddugol Gwobr Daniel Owen, Eisteddfod Dyffryn Conwy

Bethania Treforys yn cynnal ei hoedfa olaf.

Fore Sul Hydref 13, cynhaliwyd yr oedfa olaf ym Methania, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ar ôl 141 o flynyddoedd yn cyfoethogi bywyd ysbrydol yr ardal a dwyn tystiolaeth i waith yr Arglwydd Iesu yn Nhreforys. Bu chwech o weinidogion gweithgar a brwd yn ein harwain ar hyd y blynyddoedd – pob un yn meddu ar y ddawn o gyhoeddi'r Gair yn effeithiol a chydag argyhoeddiad.

Bu'r gwasanaeth olaf yn wasanaeth Cymun o dan arweiniad ein gweinidog y Parch Jill-Hayley Harries sy'n weinidog bro

rhwng Bethel a Trinity Abertawe, a'r Tabernacl a Bethania Treforys. Roedd yn wasanaeth teimladwy a'r festri yn llawn, a nifer o ffrindiau yn ymuno â ni. Er mai trist oedd yr achlysur, edrychwn ymlaen at y cyfnod nesaf yn ein hanes pan fyddwn yn ymuno yn yr addoli yn y Tabernacl. Dim ond yr adeilad sy'n cau, bydd Eglwys Bethania yn parhau yn Eglwys o fewn y Tabernacl, ac yn dal i fod yn rhan o'r Eglwys Bresbyteraidd. Wrth ddiolch am yr hyn a fu, edrychwn ymlaen at y bendithion sydd eto i ddod.

**Adloniant a Ffarwelio—
Menter Iaith Abertawe**

Er gwaetha'r glaw a'r dyddiau'n byrhau,

cafwyd cysgod a chwmni da yn Nhŷ Tawe dros y mis diwethaf. Hoffwn ddiolch i Fois y Frenni am noswaith hwylus a doniol ar ddiwedd Medi fel rhan o gig Tyrfe. Canwyd englyn mawl i'r criw gan Huw Dylan Owen:

Gwên a dagrau drwy ganu digri gwych
A gweud ambell stori,
Lleisiau brwd yn cymell sbri
Yw rhinwedd Bois Y Frenni.
Hoffwn estyn diolch yn ogystal i Geraint Davies a'i gyfeillion am noswaith arbennig o ddarlleniadau a cherddoriaeth yn ystod lansiad ei lyfr “Diawl Bach Lwcus”. Adlonwyd y gynulleidfa - a chriw recordio'r rhaglen *Heno* - gan ei atgofion lliwgar a ffraeth, cyn cwpla 'dag Emyr Wyn a Geraint arwain y dorf trwy



“Hei Mistar Urdd!”

Bu'r Fenter hefyd yn ymweld ag ysgolion lu yng nghwmni Magi Ann.

Cymeriad hoffus o lyfrau Mary Vaughan Jones yw Magi Ann sydd nawr yn ymwneud tipyn a'r Mentrau Iaith ac yn boblogaidd iawn ymysg plant ysgol gynradd. Gallwch ddarllen

storiau newydd Magi Ann ar Apiau yn rhad ac am ddim!

Rydym yn drist i ffarwelio â Meinir, **Swyddog Datblygu'r Fenter**. Daeth Meinir, o Geredigion, yn wyneb cyfarwydd i nifer yn Abertawe wrth iddi gyfrannu'n ddiwyd at waith y Fenter a chymuned Tŷ Tawe. Mi fydd hi'n symud i weithio dros Fenter Gorllewin Sir Gâr, sydd tipyn yn agosach i'w chartref. Dymunwn bob lwc iddi gyda'i swydd newydd ac i'r dyfodol!

Deugeinfed Flwyddyn Llyfrau Llafar Cymru

Mae eleni yn flwyddyn nodedig i *Llyfrau Llafar Cymru* gan mai yn 1979 - deugain mlynedd yn ôl y cychwynnodd y Mudiad. Breuddwyd Miss Rhian Evans, Caerfyrddin ydoedd ac fe wireddwyd ei breuddwyd. Trwy ddydnwch a brwdfrydedd egniol Rhian aeth y Mudiad o nerth i nerth ac erbyn heddiw mae tua 30 o wirfoddolwyr eu recordio darlleniadau o lyfrau Cymraeg a rhai **Saesneg sy'n ymwneud â Chymru. Bydd pob recordiad yn cael ei brosesu i ddisgiau digidol a'u danfon at deillion a phobl a nam golwg i'w galluogi i fwynhau'r llyfrau hyn fel eraill ohonom. Danfonir y cyfryw iddynt a'u dychwelyd yn ddi-dâl.**

Fel rhan bwysig o ddathlu'r *Deugain Mlynedd*, mae Rhian wrthi'n brysur y dyddiau hyn yn ysgrifennu hanes y fenter

arloesol hon a bwriedir yn y dyfodol agos gyhoeddi'r hyn fydd wedi ei baratoi. Byddwn yn hysbysu dyddiad a lleoliad y lansio maes o law.

Mae'r gwasanaeth a gyflawnir gan Llyfrau Llafar Cymru yn dibynnu'n llwyr ar haelioni caredig unigolion, eglwysi a mudiadau yn ogystal â nifer o Gyngorau Sir a Bro ledled Cymru. Gwerthfawrogir yn fawr y rhoddion hyn. Nid ydym yn codi tal **am y ddarpariaeth i'n "gwrandawyr"**, ond mae arnom angen arian i gyflogi dau aelod o staff, prynu adnoddau a chyfarpar angenrheidiol a chroesawir unrhyw rodd fach neu fawr. Mae pob cyfraniad a gawn yn ein galluogi i barhau i wneud bywyd yn fwy **plerus i'r cannoedd sy'n cael eu hamddifadu o ddarllen oherwydd diffyg eu golygon.**

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

Dros dymor yr Adfent a'r Nadolig bydd eglwysi a chapeli yn cofio sut y bu doniau un fam ifanc sicrhau fod neges Duw am gariad, gobaith a heddwch yn cyrraedd y byd ym mherson ei baban bach.

O amgylch y byd heddiw, mae miliynau o ferched yn magu plant mewn sefyllfaoedd caled iawn oherwydd tlodi a rhagfarn. Ond fel **Mair, maent hwythau yn defnyddio'u doniau i roi bywyd gwell i'w teulu.**

Yn India, dechreuodd Ranjita, 30, fynd **gyda'i mam i gasglu sbwriel pan oedd ond yn naw oed.** Fel casglwr sbwriel, dioddefodd ddyddiau 10-15 awr o waith israddol gan gynnwys glanhau, cario a symud carthion dynol o doiledau a charthffosiau - a hynny i **gyda'i dwylo.**

Fel **Dalit - yr isaf a'r mwyaf gwrthodedig yn system cast India - roedd yn dlawd ac ar y cyrion, heb gyfle i allu dianc y cylch systemig o dlodi yr oedd wedi ei dal ynddo.** Ranjita gaiff y sylw yn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol eleni, Gyda help partner Cymorth Cristnogol yn India, mae Ranjita wedi dysgu fod ganddi hawliau a cheisiodd am grant gan y llywodraeth yno. Trwy hynny cychwynnodd ei busnes gwnio ei hun a llwyddo i ddianc y tlodi eithafol hwn. Mae hyd yn oed yn gallu anfon ei **merch ieuengaf, Soniya, i'r ysgol.**

Bydd nifer o eglwysi a chapeli yn cynnal gwahanol weithgareddau er budd Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol dros y tymor hwn a bydd croeso mawr ichi fod yn bresennol. Os nad oes gweithgaredd yn eich ardal chi, cewch **gyfle i gefnogi'r apêl trwy fynd i wefan Cymorth Cristnogol yn caid.org.uk/**

Cylch Cinio Abertawe a Pheryglon Penio'r Bêl

Sgwrs ddifyr dros ben er bod pwnc difrifol. Y seiciatrydd ymgynghorol Dr Donald Williams, Sgeti, oedd gwestai arbennig Cylch Cinio Cymraeg Abertawe yn eu sesiwn mis Hydref. Mewn sgwrs hynod afaelgar disgrifiodd ei ymchwil i beryglon penio'r bêl ymhlith chwaraewyr pêl-droed.

Dechreuodd weithio ar y pwnc yn yr 80au cynnar ar ôl i fab chwaraewr ei holi a oedd cysylltiad rhwng y dementia difrifol oedd ar ei dad â'r ffaith ei fod yn enwog am benio ar y maes chwarae.

Mae'r Cylch Cinio bellach yn cwrrd yn **Nhŷ Norton ger y Mwmblys ble mae'r aelodau'n mwynhau'r bwyd hyfryd a'r amgylchedd dymunol.** Byddwn yn croesawu'r awdur adnabyddus Eiry Miles fel gwestai Nos Fercher 13 Tachwedd a'r Prifardd Robot Powell, Treforys am ginio'r Nadolig Nos Fercher, 11 Rhagfyr. Mae can croeso i bawb



ymuno drwy gysylltu â'r ysgrifennydd, John R.L. Thomas ar 01792 423504.

Llongyfarchiadau

i Neil Rowlands ar gael ei ddewis yn bencampwr Diwrnod Shwmae Sumae 2019. Symudodd Neil o Abertawe yn ddiweddar ar ôl gwirfoddoli llawer yn **arbennig gyda'r dysgwyr yn Nhŷ Tawe.**

Wilia

Y mis hwn yng ngofal Elin Meek.

Diolch yn fawr iawn i'n holl gyfranwyr.

Heini Gruffudd fydd golygydd rhifyn mis Rhagfyr/Ionawr: wilia@hotmail.co.uk Deunydd i law erbyn 20 Tachwedd os yw'n bosibl.



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

CYMRAEG

Hanes Pentref Llan-Elen

Heddiw, mae pentref Llan-Elen yn dal i fod ar fap Gŵyr, ger Llanrhidian. Ond, tasech chi'n ymweld â Llan-Elen fasech



chi'n gweld dim ond adfeilion yr eglwys hynafol. Gallai'r eglwys fod wedi cael ei hadeiladu yn y

chweched ganrif. Cafodd hi ei henwi ar ôl Helena, sef gwraig Maximus, yr ymerawdwr Rhufeinig o'r Gorllewin. Cafodd ei ladd yn 388oc. Does neb yn gwybod ble mae'r pentref. Mae rhai pobl yn dweud i'r pentref gael ei gladdu o dan y goedwig ar bwys Rhos Cymreig. Er hynny, mae llawer o chwedlau wedi eu cysylltu â Llan-Elen.

Yn y 17eg ganrif, roedd storm enfawr yn teithio tuag at Gŵyr.

Yn y môr, roedd llong yn hwylio o gwmpas Ynys Lanwol. Roedd tonnau grymus yn dod dros y llong a chafodd pawb eu taflu dros ochr y llong i mewn i'r môr i'w marwolaeth, heblaw am saith llongwr. Dechreuodd y llong suddo'n gyflym. Felly, neidiodd y saith i mewn i'r môr



a gafael mewn darnau o bren. Yn ffordus, neu'n anffodus, cawson nhw eu golchi i'r traeth. Roedden nhw wedi blino ond yn fyw. Gwelon nhw oleuadau'n dod o Lan-Elen a llwybr cul yn arwain i'r pentref. Felly, cerddon nhw i fyny'r llwybr o'r traeth, trwy'r coed ac i'r pentref. Roedden nhw'n teimlo rhyddhad pan gyrrhaeddon nhw'r pentref. Er hynny, roedd peswch ofnadwy arnyn nhw. Roedd hi'n oer yn y môr meddylion nhw. Rhoddodd y pentrefwyr groeso i'r llongwyr blinedig. Roedden nhw'n garedig a gofalon nhw am y llongwyr ond ar ôl tri diwrnod, roedd peswch ar y pentrefwyr hefyd. Ar ôl dim ond tair wythnos buodd pawb farw, y pentrefwyr a'r llongwyr oll, achos roedd y Pla-Du

arnyn nhw. Dyna ddiwedd Llan-Elen.

Ychydig cyn i'r Pla Du gyrraedd, dyn o'r enw'r Is-Gyrnol Bowen, oedd biau pentref Llan-Elen. Roedd e'n ddyndr wrwg ac roedd rhaid iddo fe fynd i Iwerddon. Arhosodd ei wraig, yn Llan-Elen, pan ddechreuodd digwyddiadau dychrynlyd un noson. Yn gyntaf, cafodd hi ei dihuno gan synau fel chwyrlwynt. Roedd y chwyrlwynt yn cynddeiriogi o gwmpas yr ystafell. Gallai hi glywed ergydion treisgar yn erbyn y wal. Y noson wedyn, ymddangosodd ysbryd. Roedd yr ysbryd yn edrych fel ei gŵr ond roedd e'n arogl o gnawd pŵdr a sylffwr. Gwyddai hi nad ei gŵr oedd yr ysbryd. Yn anffodus, ymddangosodd yr ysbryd bob nos. Roedd e'n crafu ac yn pinsio Mrs Bowen. Roedd rhaid i'w gŵr ddod nôl i Lan-Elen. Dychwelodd e i'r fferm ond roedd yr ysbryd yn parhau i frawychu pawb. Yn y y diwedd, aeth Mrs Bowen ac Is-Gyrnol Bowen i Iwerddon.

Ychydig fisoedd ar ôl iddyn nhw adael Llan-Elen cyrrhaeddodd y Pla-Du ar y llong. Oedd yr ysbryd yn gythraul drygioni neu'n ysbryd caredig, oedd yn ceisio eu rhybuddio nhw am y trychineb oedd i ddod?

Mae rhai'n meddwl bod gweddillion y pentref yn felltgedig. Roedd ffermwr yn crwydro o gwmpas yr adfeilion pan ddaeth e o hyd i garreg

hyfryd a defnyddiol. Cludodd e'r garreg drwm yn ôl i'w fferm. Wedyn, bob nos, roedd ei gwsg yn cael ei aflonyddu gan y garreg. Roedd y garreg yn rholio ac yn griddfan tu allan i'w ffenestr. Allai e ddim cysgu o gwbl. Felly, roedd rhaid iddo fe fynd â'r garreg yn ôl i'r hen bentref. Ar ôl hynny, roedd e'n cysgu'n dda. Er hynny, cafodd dwy garreg eu cymryd o Lan-Elen a'u rhoi ym mhostyn gât eglwys Llanrhidian. Peidiwch â chyffwrdd â nhw, beth bynnag rydych chi'n ei wneud!

Geirfa
adfeilion -ruins hynafol -ancient
ymerawdwr-emperor
rhyddhad-relief
Pla-Du-Black death



Darlunydd: DRMR
Ffotograffydd: Florence Kelleher

Ynys Lanwol -Burry
Holmes
pŵdr-putridychrynlyd
-macabre
chwyrlwynt-whirlwind
ergydion-banging
cynddeiriogi-rage
trychineb-
catastrophe
cythraul-demon
treisgar-violent
melltgedig-cursed
Awdur: Marc
Kelleher



CALENDR ABERTAW
2020

AR WERTH YN SIOP TY
TAW

AR GAEL HEFYD I GORAU
A GYMDEITHASAU: CEWCH
GADW £3 AM BOB COPI.

CYSYLLTWCH A HEINI
GRUFFUDD,

heinie@gruffudd.org
I GAEL COPIAU

NWYDDAU'R NADOLIG

CARDIAU
ANRHEGION
LLYFRAU CDAU
GEMWAITH
LLECHI
DIODYDD CYMREIG
CLUSTOGAU
POPETH I BLANT
YN SIOP TY TAW

Teulu talentog ac awdur toreithiog gyda Chymdeithas Gymraeg Treforys



Yn ogystal â'n taith i Gernyw, cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Gymdeithas ym mis Medi. Ni allodd Andrew Green, Cyn-lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ddod i'r Gymdeithas ym mis Gorffennaf eleni gan ei fod ar yr union noson yn Aberystwyth, yn derbyn ei wobwr Llyfr Freithiol Greadigol 2019. Y llyfr hwn oedd *Cymru mewn 100 Gwrthrych*. Siaradodd am y gwaith ymchwil wrth baratoi'r llyfr a chyflwynodd, drwy lun a sgwrs, enghreifftiau o'i lyfr

cynhwysfawr. Noson ddiddorol iawn yng nghwmni un sydd, er yn enedigol o Stamford yn Swydd Lincoln ac wedi treulio ei ieuentid yn Swydd Efrog, yn rhugl yn y Gymraeg.

Cynhaliwyd ein Swper Cynhaeaf yng Nghlwb Golff Treforys. Yn dilyn pryd o fwyd tri chwrs blasus a baratowyd gan Andrew â'r tim, cawsom gyfle i estyn croeso i'n gwestai, Huw Dylan. Magwyd ef yn Nolgellau ond mae Huw a'i

deulu wedi ymgartrefu yn "Nhreforys. Mae ei waith dros "Tŷ Tawe" a dysgwyr y Gymraeg yn yr ardal yn sylweddol. Yn ogystal, mae Huw yn ganwr gwerin o fri, wedi canu gyda "Gwerinos" a nifer o grwpiau eraill. Hefyd, mae'n fardd ac yn awdur llyfrau. Enillodd y Gadair eleni yn Eisteddfod Powys ac ef oedd yr agosaf at y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy. Mae ei lyfr *Sesiwn yng Nghymru" yn trafod caneuon gwerin mewn ffordd unigryw.*

Trwy ganu ambell gân a sgwrsio am ei chefnidir ac am y llyfr fe lwyddodd Huw i swyno'r aelodau gyda'i gyflwyniad. Yn gwmni iddo ar y noson roedd ei ddwy ferch, Heledd a Mirain, a gwerthfawrogwyd eu cyfraniad at noson ddymunol iawn gan deulu talentog.

Yr awdur a'r darlledwr Jon Gower oedd ein siaradwr ym mis Hydref. Mae Jon yn awdur toreithiog ac enillydd gwobr Llyfr y Flwyddyn 2012 gyda'i nofel *Y Storiwr*.



Adroddodd ychydig o'i hanes personol wrth iddo ein harwain yn gelfydd trwy ambell nofel gan egluro'r cefndir a'r ysbrydoliaeth i'r ysgrifennu. Yn y llun mae'n sgwrsio ag Ann Rosser.

Rydym yn edrych ymlaen at ddarlith gan yr Athro Geraint Jenkins yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Gymdeithas. Cynhelir y cyfarfod yn Ffestri'r Tabernacl nos Iau, Tachwedd 21ain am 7.00.y.h.

Siarad Cyhoeddus a Diwrnod Shwmae ym Mryn Tawe

Eleni eto cynhaliwyd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus (cyfrwng Gymraeg) yn yr ysgol i'r disgyblion hŷn o flynyddoedd 9-13. Ddydd Gwener, Hydref 11eg, cymerodd pedwar o dimau ran gyda phynciau'r areithiau'n amrywiol a chyfredol e.e. dyfodol Cymru, hawliau merched a chynhesu byd eang! Diolch i bob un ohonynt am eu gwaith caled yn paratoi at y gystadleuaeth. Edrychwn ymlaen at gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari nawr pan fydd Caitlyn, Steffan a Nansi yn cynrychioli Bryn Tawe. Ymlaen â'r dadlau!



Fel rhan o ddatliadau Diwrnod Shwmae, trefnodd criw o ddisgyblion gyfres o gemau i ddysgu rhieni a ffrindiau'r ysgol i siarad

Cymraeg. Cawsom gêm bingo i ddysgu enwau bwydydd, gêm domino i ddysgu am y tywydd a phynciau'r ysgol, gêm "Dyfalwch pwy?" a gêm y corff. Profwyd cynnydd pawb ar ddiwedd y wers gyda chwis kahoot! Diolch i'r disgyblion am y noson o fwynddau!



Mae'r teulu hwn newydd ddychwelyd o Lydaw. Ond nid gwyliau haf oedd eu hymweliad. Aeth y Prifardd Aneirin Karadog, Laura ei wraig, Sisial ac Erwan eu plant a Mukti'r ci i



fyw am

flwyddyn i wlad y tad-cu a'r fam-gu. Byw drwy'r Llydaweg oedd y nod. Dewch i glywed eu hanesion a'u profiadau!

LLYFR YN DATHLU'R


FASNACH LO A CHOPR YN ARDALOEDD ABERTAWA A LLANELLI

Mae llyfr newydd yn dathlu hanes y môr a'r masnachu fu ym mhorthladdoedd Abertawe a Llanelli.

Dyma'r astudiaeth fwyaf cynhwysfawr erioed o hanes y môr yng Nghymru - a gymrodd dros ddegawd i'w ymchwilio a'i gynhyrchu - ac mae'n cael ei gyhoeddi'r wythnos yma gan Wasg y Lolfa a'r pris yw £24.99.

Mae'r gyfrol Cymru a'r

Môr: 10,000 o Flynyddoedd o Hanes y Môr yn tyrchu i bob agwedd o gysylltiad Cymru â'r môr, o hanes cynnar i'r presennol: o archeoleg i




baentiadau a barddoniaeth, o hanes morwrol i wyliau glan y môr. Y cofnod cynharaf o anfon llwyth o lo yng Nghymru oedd ym 1500 pryd y cludwyd llwyth o Abertawe i Ddinbych-y-Pysgod. Am gyfnod byr tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, 'glo ager' Cymru fu'n gyrru'r chwyldroadau mewn diwydiant a chlodiant ledled y byd.

Cludwyd y glo i lawr Cwm Gwendraeth i Ben-bre, Porth Tywyn a Llanelli. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif ac am lawer o'r ganrif ddilynol, tyfodd Abertawe'n ganolfan fyd-eang i'r broses o smeltio copr. Erbyn 1810 cawsai'r gwaith copr mwyaf yn y byd ei godi yn yr Hafod ar lan Afon Tawe.

Fe gafodd y gyfrol ei chomisiynu gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru mewn cydweithiad gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CADW, Amgueddfa Cymru, a'i hysgrifennu gan rai o haneswyr ac archeolegwyr mwyaf blaenllaw Cymru. Mae *Cymru a'r Môr* yn cynnwys hen ffotograffau archifol a ddaw yn bennaf o gasgliadau enfawr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol

Cymru ac Amgueddfa Cymru, ond hefyd o lyfrgelloedd o bedwar ban byd. **Wedi ei ddarlunio'n fendigedig ac yn llawn dros 300 ddelweddau, mae'r gyfrol swmpus 348 tudalen yn edrych ar ddylanwad y môr ar y dychymyg artistig trwy baentiadau morwrol, morluniau, barddoniaeth, caneuon a chofroddion poblogaidd o lan-y-môr. Y nod yw codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o ran**



Nadolig yn y Cartref gan Luned Aaron (Gwasg Carreg Gwalch £5.95)

Mae 'Adfent' yn golygu siocled i blant heddiw. Dyma gyfrol sy'n aildarganfod traddodiadau'r Nadolig yn y cartref a all fynd ar goll ynghanol prysurdeb yr ŵyl heddiw.

Lluniau lliw hyfryd, clawr caled - mae'n addurn yn ogystal â bod yn

proffil treftadaeth forol Cymru a dathlu gwaith caled y sawl sydd yn diogelu y dreftadaeth hon ar gyfer y genedl, trwy gofnodi, amddiffyn safleoedd a gwaith curadu mewn amgueddfeydd.

Fe fyddai'n anrheg delfrydol ar gyfer y Nadolig.

Lansiwyd *Cymru a'r Môr* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, Mae *Cymru a'r Môr* (£24.99, Y Lolfa) ar gael nawr (mae fersiwn Saesneg hefyd ar gael: *Wales and the Sea: 10,000 Years of Welsh*



Cynhaliwyd Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Morgannwg yn ddiweddar yng Nghapel yr Alltwn, Pontardawe. Diolch i Joanna



CAPELI CWM TAWE A'R CYFFINIAU

Mae darluniau o waith yr arlunydd Joanna Jones i'w gweld ac i'w prynu yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe, SA8 4ET tan 23 Tachwedd 2019.

Paentio'r haf drwy'n pentrefi— eu lliwio

â llewyrch ffenestri;
daw aur i'n haddoldai ni;
Cipio heulwen capeli.

Emyr Lewis

FFAIR NADOLIG Tŷ Tawe CHRISTMAS FAIR

22. 11. 2019
5:30 - 7:30 pm

Standiau lŷ! Dewch i gefnogi busnesau bach a chrefftwyr lleol.
Various stalls! Come and support your local producers!

Am fwy o wybodaeth ac i archebu standin, cysylltwch:
For more information and to book a stall, contact:
datblygu@menterabertawe.org / 01792 460 906

Trefi Cymru'n cael hwb i gynllunio ar lawr gwlad

Bydd pobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli mewn trefi a chymunedau ar draws Cymru'n elwa ar adnodd newydd i'w helpu i ddod o hyd i gyfleoedd yn eu hardaloedd.

Gwefan ddwyieithog newydd sy'n cael ei gydlynu gan y Sefydliad Materion Cymreig yw [Deall Lleoedd Cymru](#), sy'n darparu gwybodaeth am economi, cyfansoddiad demograffig a gwasanaethau lleol mwy na 300 o leoedd yng Nghymru a hynny ar ffurf hylaw a hawdd.

Bydd yr ystadegau'n darparu gwybodaeth am ystod eang o bynciau gan gynnwys nifer y lleoedd ysgol, siopau ac elusennau yn yr ardal, cyflogaeth, pellteroedd teithio, hunaniaeth genedlaethol a niferoedd siaradwyr Cymraeg.

Bydd hyn nid yn unig yn caniatáu i bobl â diddordeb yn eu tref ddysgu mwy am eu hardal, ond bydd y wefan hefyd yn helpu cyngorau tref, grwpiau cymunedol, elusennau a llunwyr polisi i greu gwasanaethau sy'n gweddu i gymunedau unigol ar draws Cymru. Er bod gwefannau data eraill yn cyflwyno gwybodaeth ar lefel awdurdod lleol, mae Deall Lleoedd Cymru'n caniatáu i bobl ddadansoddi ystadegau am bob lle yng Nghymru lle mae mwy na 2,000 o drigolion. Yn ogystal ag archwilio data am leoedd unigol, gall pobl gymharu trefi a

dysgu am berthynas eu lle â chymunedau cyfagos ac eraill ar draws Cymru. Y nod yw annog pobl i greu perthnasau ar draws ffiniau cymunedol, rhannu syniadau a deall yn well y perthnasau sy'n bodoli yn holl drefi eu hardal.

WELSH WHISPERER

15.11.19

£5

Tŷ Tawe, 9 STRYD CHRISTINA, ABERTAWE

DRYSAU'N AGOR AM 7.30YH
Doors open at 7.30 pm

Archebu tocm cynffwrchâ / To book in betref, contact:
01792 466 856 / siop@sioptytawe.com



BRYN TAWE YN DATHLU DIWRNOD T. LLEW JONES

Yn ôl ein harfer, dathlwyd Diwrnod T. Llew Jones gyda'r Chweched yn cyflwyno gwasanaeth i flynyddoedd 7 i 9, a chwblhaodd bl.7 Helfa Drysor am fywyd a gwaith T. Llew Jones yn eu gwersi